**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Frankee Auditano | Nyrs dan Hyfforddiant |
| Alyx Baharie | CGGA |
| Is-gomander Andy Davies | Y Llynges Frenhinol |
| Ross Edwards | Garrison Farm |
| Asgell-gomander Phil Flower | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Caryn Furlow-Harris | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Phil Jones | SO Fit / Veterans RV |
| Chris Kelshaw | Garrison Farm |
| Y Cyng. Elliott King | Cyngor Abertawe |
| Emma Reeves | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol |
| Paul Smith | Veterans RV |
| Tony Strutt | Veterans Aid |
| Victoria Williams | GIG Cymru i Gyn-filwyr |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| David Price-Deer | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ruth Birch, Pat Dunmore, Louise Fleet, Steve Fry, Rob Govier, Jon Hinkin, Natalie McCombe, Christine Morrell, Steve Spill, Neil Tomlin a'r Capt Huw Williams

---

## 33 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

## 34 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

## 35 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Amlinellodd Caryn Furlow-Harris (Cyngor CNPT) fod Bethan wedi symud i swydd arall o fewn CNPT ddiwedd mis Mehefin.

Mae'r swydd Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi cael ei hysbysebu ac mae ceisiadau wedi eu derbyn. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio ychydig cyn y cyfweliadau.

Rhoddir diweddariad yn ystod y cyfarfod nesaf.

## 36 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rhoddodd Andy Davies (y Llynges Frenhinol) ddiweddariad byr a dywedodd fod HMS Cambria wedi'i ymestyn i 2033, sydd i'w groesawu. Cynhelir diwrnod cyswllt ar 31 Gorffennaf, a byddai'r gwahoddiadau'n dilyn yn fuan.

Amlinellodd fod y gwasanaeth yn parhau i recriwtio ar gyfer swyddi rheolaidd ac wrth gefn.

Cyfeiriodd at gyfranogiad y gwasanaeth yn y digwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghasnewydd ac roedd yn edrych ymlaen at ddigwyddiad y flwyddyn nesaf yn Abertawe.

Amlinellodd fod y Cadeirydd wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad Cadetiaid Môr Abertawe heno, ac amlinellodd fod recriwtio ar gyfer y cadetiaid wedi mynd yn dda yn ystod y Sioe Awyr.

Amlinellodd y Cadeirydd fod y Capten Huw Williams dramor ar leoliad ac yn methu â mynychu'r cyfarfod heddiw. Roedd wedi cyflwyno diweddariad, a fyddai'n cael ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Mae'r crynodeb o'r diweddariad fel a ganlyn;
Cynhaliwyd y cyfarfod Cymorth Milwrol diweddaraf ar 13 Mehefin 2023 lle edrychom ar ddigwyddiadau i ddod sydd bellach wedi dod i ben, a'r meysydd a drafodwyd oedd:

> Mis y Plentyn Milwrol – 25 Ebrill 23. Cyflwynwyd y digwyddiad yn ARC The Grange ar gyfer plant milwyr mewn cydweithrediad â Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Y 160fed Brigâd.
> Roedd yn wych bod Arglwydd Faer Abertawe a Maer Castell-nedd a Phort Talbot wedi gallu mynychu, ynghyd â'r Arglwydd Raglaw a'n Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Mrs Wendy Lewis. Cymerodd y plant ran mewn nifer o weithgareddau a oedd yn cynnwys ysgrifennu barddoniaeth, ioga ymwybyddiaeth ofalgar, datrys problemau a golwg hanesyddol ar fywyd yn ystod y dyddiau a fu.
>
> Coroni'r Brenin – cynhaliwyd digwyddiadau lleol ar 30 Ebrill 2023 yng Nghastell-nedd ac Abertawe. Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig iawn, ac roedd yn wych bod cynifer o Bersonél y Lluoedd Arfog, Cadetiaid a Chyn-

filwyr wedi gallu mynychu'r gwasanaethau hyn. Diolch yn fawr iawn i bawb a helpodd i drefnu, cyflwyno a mynychu'r diwrnod arbennig iawn hwn.

Cynhaliwyd Diwrnod/Wythnos y Lluoedd Arfog rhwng 19 a 25 Mehefin 2023: 19 Meh yng Nghastell-nedd a Phort Talbot a dydd Sadwrn 24 Mehefin yn Abertawe. Unwaith eto, roedd hwn yn ddigwyddiad a gynrychiolwyd yn dda, yn enwedig gan y gymuned Cadetiaid a Chyn-filwyr. Roedd Pibyddion y Cadetiaid Awyr yn hollol wych, hoffwn ddiolch yn bersonol i'r unigolion ifanc hyn.

Cafodd Sioe Awyr Genedlaethol Cymru ei chyflwyno rhwng 30 Mehefin a 2 Gorffennaf 2023. Roedd y torfeydd yn enfawr a chynhaliwyd llawer o weithgareddau. Roedd gennym nifer o stondinau milwrol yno dros y penwythnos.

Digwyddiadau i ddod:
Taith Gerdded Gŵyr Dug Caeredin, 9 Medi 2023. Naill ai taith gerdded 22 milltir (dechrau yn Rhosili) neu daith 10 milltir (Porth Einon) o amgylch rhan o'r arfordir mwyaf golygfaol yn y byd.
Digwyddiadau Coffa 2023: Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn gofyn am gymorth dros bythefnos Apêl y Pabi i helpu i gasglu a gwerthu pabïau fel y gall yr LlBF barhau i wneud ei gwaith rhagorol.
Os hoffai unrhyw gyn-filwyr neu sefydliadau cyn-filwr gynorthwyo, cysylltwch â'r Asgell-gomander Phil Flower neu rhowch eich manylion i mi a byddaf yn eu hanfon ymlaen ato.
27 Hydref – Theatr y Dywysoges Frenhinol, Gŵyl Goffa Port Talbot
28 Hydref 23 – Codi'r Faner ac agoriad yr Ardd Goffa
4 Tachwedd - Gŵyl Goffa Neuadd Brangwyn
11 Tachwedd 2023: Pabïau i Paddington – Gorsaf Drenau Abertawe – drwy wahoddiad yn unig.
11 Tachwedd 2023: Pabïau yn y Sgwâr Abertawe (mwy o fanylion i ddilyn)
11 Tachwedd – Senotaff Abertawe, Ffordd y Mwmbwls – gorymdaith 10:30
12 Tachwedd – Port Talbot – 11:00 – Sgwadron Trafnidiaeth 223
12 Tachwedd – Senotaff Abertawe
12 Tachwedd – Y Gnoll, Castell-nedd
12 Tachwedd – Eglwys y Santes Fair – 14:00

Darparodd Catrawd 157, Sgwadron 223 gymorth i lawer o asiantaethau yn yr ardal leol, ac roedd yn dda bod gofyn i ni gefnogi digwyddiadau fel diwrnodau agored a darparu sesiynau gweithgareddau ar gyfer grwpiau lleol. Sylwer, nid ydym yn 'dewis' pa sefydliadau neu asiantaethau a gefnogir gennym ond rydym wedi ceisio cynorthwyo'r rhai a ofynnodd am ein help a'n cymorth. Mae sibrydion am elusennau'r cyn-filwyr, bod gen i fy 'ffefrynnau' ac nid yw hyn yn wir.

Sylwer hefyd, ni allwn ddarparu adnoddau milwrol heb gostau ar gyfer gweithgareddau elusennol sy'n codi arian ar gyfer sefydliadau elusennol. Y sefydliadau y gellir eu defnyddio o bosib yw'r cadetiaid, a dylai elusennau gysylltu'n uniongyrchol â nhw.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau lleol eraill mewn perthynas â'u briffio am yr hyn y mae'r Fyddin Wrth Gefn yn ei olygu a beth yw ein rôl. Mae hyn er mwyn rhoi eglurder am ein rôl. Mae croeso i chi ein defnyddio ni os credwch y gallwn ychwanegu gwerth.

**37 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.**

Adroddodd Victoria Williams fod 27 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio i wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr dros y 3 mis diwethaf, y mae 21 ohonynt wedi cael eu hasesu.

Penodwyd therapydd newydd a bydd yn dechrau ar ddechrau mis Hydref, sydd i'w groesawu.

Mae Frankie, myfyriwr nyrsio, wedi helpu yn ystod y cyfnod o golli therapydd gan ei bod, fel rhan o'i gradd Meistr mewn Astudiaethau Nyrsio Iechyd Meddwl, wedi cynorthwyo'r tîm ac wedi delio â chleifion cyn iddynt ddechrau eu therapi. Mae hyn wedi helpu, a bydd yn parhau i helpu'n fawr nes bydd y person newydd yn dechrau.

Roedd aelodau eraill o'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, ond roeddent wedi cyflwyno diweddariad a fydd yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod.

**38 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.**

Dywedodd Emma Reeves fod cyfarwyddiaeth addysg Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r holl dîm SSCE tan ddiwedd y flwyddyn academaidd yn 2024.

Roedd hi a chydweithiwr wedi mynychu'r Sioe Awyr ac wedi gweld llawer o bobl yn ystod y digwyddiad, a oedd yn llwyddiant mawr, y gellir adeiladu arno'r flwyddyn nesaf.

Ei chynllun oedd cael mwy o ysgolion i ymuno â'u statws Ysgolion sy'n Gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.

**39 Veter Aid.**

Siaradodd Tony Strutt ymhellach am yr wybodaeth a ddosbarthwyd, a oedd yn manylu ar gefndir sefydlu'r grŵp, sy'n ceisio defnyddio cyn-filwyr i gefnogi prosiectau elusen/cymorth trychineb yn y DU a thramor.

Os hoffai unrhyw unigolion neu sefydliadau gymryd rhan, gallant anfon e-bost ato yn info@v-aid.org.uk.

**40 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

So Fit/Veterans RV

Amlinellodd Phil Jones ei fod wedi cefnogi Capten Huw ac Emma gyda'r digwyddiad Plant Milwrol yn y Grange ym mis Ebrill, a fu'n llwyddiant mawr.

Amlinellodd fod ei sefydliad yn parhau i ddarparu sesiynau iechyd meddwl i blant milwyr yn ysgolion Abertawe, ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda a gobeithio y bydd yn cael ei ehangu yn y dyfodol.

Rhoddodd fanylion am ddigwyddiad cysylltu â Phrifysgol Abertawe a ddatblygwyd i edrych ar fanteision therapi dŵr oer i gyn-filwyr. Amlinellodd y byddai angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r ymchwil wrth symud ymlaen.

Diolchodd hefyd i Gyngor Abertawe am y cymorth ariannol i'r grŵp nofio Veterans RV.

Garrison Farm

Cyflwynodd Ross Edwards aelod newydd o'r tîm, Chris Kelshaw.

Nododd hefyd y byddai'r fferm mewn sefyllfa i ddod â chnydau i'r farchnad i'w gwerthu yn fuan, gobeithio.

Cyngor Abertawe

Diolchodd David Price Deer i'r holl sefydliadau am eu cymorth a'u cefnogaeth i gyflwyno Sioe Awyr hynod lwyddiannus arall. Amlinellodd na ellid cyflawni'r digwyddiad heb eu cymorth a'u hewyllys da.

Ategodd Spencer Martin y sylwadau ac amlinellodd y gwahanol bobl o bob cwr o'r wlad yr oedd wedi siarad â nhw yn y Babell Cyfamod dros y penwythnos.

Gobeithir cynnal y Sioe Awyr ochr yn ochr â Diwrnod Lluoedd Arfog Cymru yn Abertawe'r flwyddyn nesaf, felly gall y digwyddiad ond fod yn ddigwyddiad mwy a gwell.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.20 pm

**Cadeirydd**